**Dolobran a'i debyg: colli ac ailddarganfod plasau ac ystadau Cymru**

*Darlith a draddodwyd gan* ***yr Athro Prys Morgan*** *yn yr Eisteddfod Genedlaethol (stondin Prifysgol Bangor) ddydd Mercher, 5 Awst 2015 ac a atgynhyrchwyd gyda'i ganiatâd caredig.*

Mae maes yr eisteddfod ar ymylon Dolobran, cartref cangen nodedig o'r Llwydiaid. Disgynyddion oeddynt i hen deuluoedd Powys, oll yn arddel fel cyndad Aleth brenin Dyfed, ond yn ffynnu trwy'r broydd hyn o'r ddeuddegfed ganrif ymlaen. Perthynent i Fychaniaid Llwydiarth, ac ymbriodi a hen ach Blaeneuaid Gregynog. Deuthum ar draws y teuluoedd hyn wrth sgrifennu ar hanes Gregynog yn y 1970au. Roedd y Llwydiaid yn nodedig am eu bod yn uchelwyr oedd yn feirdd (e.e. Dafydd Llwyd) yn y 16 ganrif, a fel yr holl deuluoedd hyn, daethant yn berchenogion ar ystadau helaeth yn amser y Tuduriaid, o achos newidiadau'r Deddfau Uno, a oedd yn gwahardd rhannu hen diroedd etifeddol y llinach.

Ond daeth newid chwyldroadol i'r Llwydiaid yn y 17 ganrif – aethant i'w haddysgu yn Rhydychen, ac yno nid Seisnigo yn unig oedd eu hanes, ond dyma hwy'n troi'n Grynwyr, a dioddef erledigaeth o dan Siarl II. Aeth un gangen i Philadelphia a sefydlu'r Welsh Tract y Mhensylfania, a changen arall yn dechrau gweithiau haearn ar yr ystadau ym Mhowys, gan golli arian mawr yn y broses. Aeth cangen arall i Birmingham ac ymuno a chylchoedd Crynwrol y ddinas honno ac yna yn sefydlu Banc Lloyds. Roedd un gangen wedi aros yn Nolobran, ond tarawyd hon gan y math o argyfwng oedd mor gyffredin ymhlith uchelwyr Cymru yn y 18fed ganrif, sef diffyg etifeddion, ac yn y pen draw bu'n rhaid gwerthu Dolobran.

Erbyn diwedd y 19 ganrif tua 1877, fodd bynnag, daeth cangen o'r Llwydiaid yn ol o Loegr ac ailbrynu'r hen bias ac adfer y ty a'r hen dy cwrdd Crynwyr heb fod nepell o'r plas. Diddorol gweld fod aelod o'r teulu, George Lloyd (1879-1942), Arglwydd Lloyd o Ddolobran, gwleidydd Ceidwadol pwysig yn ei ddydd, yn cefnogi ymdrechion Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i achub plasau rhag mynd i ddifancoll.

Dyna i chwi deulu'r Llwydiaid, Cymry'n mudo o'u hen gynefin i Birmingham ac i Lundain ac i Bennsylvania ac yn dod yn Grynwyr ac yn ddiwydianwyr ac yn fancwyr enwog, ond yn y pen draw yn dod yn ol ac ailadfer y plas gan ailddarganfod eu gwreiddiau yn Nolobran. Fy nadl i heddiw yw bod hyn yn ddrych o'r hyn sydd wedi digwydd i hanesyddiaeth y plasau a'u hystadau yng Nghymru. Roedd oes yr uchelwyr o'r 16fed ganrif hyd ddiwedd y 18fed ganrif, yn oes aur i dwysged o deuluoedd ym mhob sir, oes o godi plasau crand a gerddi a pharciau hela, penodi beiliaid a stiwardiaid i wasanaethu'r ystadau helaeth, codi ysgolion ac elusendai, goruchafu llys a llan ym mhob ardal, a choffau eu hunain trwy gywyddau ac awdlau, a phortreadau tu fewn i'r tai a beddfeini rhwysgfawr yn yr eglwysi y tu allan. Dyna'r math o ddosbarth cymdeithasol y mae'r Athro John Gwynfor Jones wedi ei astudio meewn toreth o gyfrolau ar yr uchelwyr rhwng 1536 a 1640.

Ond yna mae oes yn codi o rwyg ac o gasineb, o ymbellhau oddi wrth eu pobol eu hunain. Gwelwyd hyn yn 1703 gan yr uchelwr a'r dychanwr Elis Wynne o'r Lasynys yn y Bardd Cwsc, yn galaru am ddadfeiliad y man-blasau, wrth i'r man-stadau gael eu llyncu fwyfwy gan y gwyr mawr, a chyflymu wnaeth y broses yn ystod y 18fed ganrif. Daeth ystadau Cymru i fod yn ddigon ffyniannus a blonegog i fod yn ddeniadol i uchelwyr o Loegr, a ddaeth i Gymru i ddewis priodi etifeddesau'r hen deuluoedd. Mae Melvyn Humphreys wedi astudio'r broses yn sir Drefaldwyn, gan ddangos sut y cyfranodd hyn at argyfwng

yn y cefn gwlad erbyn 1800.

Roedd gwaeth i ddod, gyda'r dosbarth canal a'r werin bobol yn chwilio am ffyrdd i ymryddhau oddi wrth hualau'r pendefigion, gan fynnu rhyddid crefyddol i godi eu capeli eu hunain ac yna yn ceisio eu hawliau gwleidyddol, ac yn y cyfnod wedi 1868 yn troi tu min ar yr hen feistri. Nes eu bod yn colli gafael ar gynrychiolaeth yn y Senedd ac yna yn y cynghorau sirol newydd o 1889-90 ymlaen – mae sir Drefaldwyn y esiampl nodedig o Syr Watkin Williams-Wynn a'i deulu yn colli gafael ar gynrychioli sir Drefaldwyn ers y Deddfau Uno. Dangosodd Kenneth O. Morgan hyn yn eglur yn ei gyfrolau safonol, sut y gwthiwyd yr uchelwyr o'r ffordd yn raddol rhwng 1868 a 1922. Roedd gwaeth i ddod yn yr ystyr bod cenedlaethau o haneswyr Anghydffurfiol (e.e. Robert Jones, Rhoslan), yn codi i greu delwedd hyll o'r hen uchelwyr, a'u dilyn gan ddelwedd hyllach o'r uchelwyr fel meistri creulon gan bropagandwyr Radicalaidd megis Thomas Gee, ac o lenorion oedd a'u bryd ar ddyrchafu'r werin bobl, fel Owen M. Edwards. Mae Matthew Cragoe wdi tynnu sylw at y broses o greu delwedd ormesol ac anghynnes o'r uchelwyr gyntaf i gyd yn Sir Gaerfyrddin, ac yna yn ei lyfr ar frwydr yr hen drefn a'r Radicaliaeth newydd trwy Gymru benbaladr. Doedd hi ddim yn anodd i gydio'r holl gybolfa Radicalaidd ac Anghydffurfiol hyn wrth y mudiadau newydd o'r Chwith a gododd tua diwedd y 19fed ganrif yng Nghymru ddiwydiannol, nes bod yr hen sgweieriaid a'u hystadau, ac offeiriaid a pherchnogion y degymau, wedi mynd yn ddryswch mawr o fwganod, ynghyd a meistri Cyfalafiaeth.

Ar un olwg hawdd deall dryswch ym meddwl y werin bobol: roedd Arglwydd Penrhyn ac Ardalydd Bute yn perthyn i hen deuluoedd bonedd, ond roeddynt erbyn ail hanner y 19fed ganrif ymhlith cyfalafwyr mwyaf Ewrop, ac yn byw mewn cestyll mawr fel barwniaid yr Oesoedd Canal. Mae Melvin Humphreys yn son am 'detached magnificence' plasau'r uchelwyr tua 1800. Roedd y plasau eu hunain yn adlewyrchu hyn: daeth ton ar ol ton o ail godi'r plasau yn y 19fed ganrif fel cestyll a maenorau canoloesol – Y Bronwydd yng Ngheredigion gan Syr Marteine Lloyd, Cymro Cymraeg a oedd yn honni bod yn Arglwydd y Mers ar arglwyddiaeth Cemais – fol petaent i'w hamddiffyn yn erbyn grymoedd yr oes fodem mewn parciau mawrion, yn herio'r newyddfyd blin. Un o'r pethau mwyaf bygythiol a gelynol yng Nghymru, i'm tyb i, yw muriau y Faenol, tu allan i Fangor. Roedd Gregynog yn arfer bod ar y ffordd fawr o're Drenewydd i Gaersws, ond trowyd yr heol i fod yn ffordd breifat i'r ty, a'r ffordd gyhoeddus yn symud o olwg y plas.

Os oedd hynny yn bosib, roedd gwaeth eto i ddod yn yr ugeinfed ganrif: daeth y Rhyfel Mawr yn 1914-18, a'r etifeddion, bechgyn ifainc yn gweld eu hunain fel Croesgadwyr yrr marchogaeth allan o'u maenorau i ryfel, yn arwain eu dynion (yn aml eu gweision a'u tenarrtiaid yn y catrodau sirol) i'r ffosydd, ac yn marw fel pys yn y brwydrau, a'r ystadau'n cael eu gwerthu ar ol y rhyfel, a'r tai eu hunain yn dirywio ac yn dadfeilio heb neb i ofalu amdanynt. Dyna'r darlun du a geir yn llyfr un o ddisgnyddion Syr Marteine Lloyd, Thomas Lloyd, *Lost Houses of Wales.* Yna yn 1922 daeth deddf F.E. Smith (Arglwydd Birkenhead wedyn) i ddod a hen hawliau ffiwdal a maenorol i ben, gan wneud llysoedd yr hen faenorau, gan amlaf o dan adain stiwardiaid yr hen ystadau, yn gwbl ddiangen. Arweiniodd hyn at werthu miloedd o ddogfennau memrwn yn ymwneud a'r llysoedd hyn, a dyna mae'n siwr sy'n esbonio'r ffasiwn rhwng y ddau ryfel, o gael lampau trydan a dogfennau memrwn wedi eu gwnio fel cysgod arnynt. Yn ffodus, bu rhai archifwyr a llyfrgellwyr yn ddigon effro i neidio at y gyfle o roi cartref i rai miloedd o ddogfennau maenorol yn selerydd eu stordai. Gan fod yr uchelwyr wedi cael eu

gwthio allan o'r cynghorau sir a phlwyf, a'r etifeddion wedi marw yn y rhyfel, pan ddaeth cyrff cyhoeddus i'w sefydlu trwy Gymru o'r 1920au a'r 1930 ymlaen, prin iawn oedd y llefydd a roddwyd i 'r hen uchelwyr. A chymryd ambell esiampl o'r deheudir, eithriadau oedd dynion megis Syr Grismond Philipps o Gwmgwili neu Syr Cennydd Traheme o Goedarhydyglyn, er bod dylanwad eu dosbarth yn parhau mewn ambell gylch fel yr Eglwys yng Nghymrn a'r Gymdeithas Hynafiaethau, neu swyddi'r Arglwyddi Rhaglaw. Dywedodd Edmund Burke am y Chwyldro Ffrengyg 'Mae oes Sifalri wedi dod i ben', ac erbyn 1920 gellid dweud gyda sicrwydd yng Nghymru fod 'oes yr uchelwyr wedi hen orffen'.

A dyna'r trydydd cyfnod yn dod i 'r golwg, yn wir, yn dod yn bosibl, am fod yr hen oes wedi gorffen. Cyfnod o ddadeni diddordeb yn yr hen bwnc, y plasau a'r ystadau, mewn oes nad yw yn gwybod beth yw ofn cipar neu stiward ar ystad. Dyna sydd mor werthfawr yn y prosiect hwn ym Mangor a Maynooth, mae'r ddwy genedl wedi gorfod sylweddoli bod yna gyfnod mawr wedi diflannu heb fawr o gof amdano, lle roedd y plasau'n holl bwysig nid yn unig mewn amaethyddiaeth ond, fel yn achos Dolobran, yn hanes diwydiant a bancio yn ogystal. Rydym ni wedi hen angofio'r hen gweryla yn oes yr hen Ryddfrydiaeth a'r hen Doriaeth ac wedi colli gafael ar yr hen gecru crefyddol rhwng eglwys a chapel, ac yn fwy rhydd i weld yr hen uchelwyr a'u teyrnas yn ddiragfarn.

Mae'n hen thema sy'n rhedeg trwy hanesyddiaeth – meddylier am y Dadeni Dysg yn yr Eidal yn dod ar ol cyfnod o golli gafael ar yr Henfyd am yn agos i fil o flynyddoedd: mae modd i ninnau hefyd i sylwi bod canrif wedi mynd heibio ers byd Herbert M. Vaughan a'i lyfr yn 1926 *South Wales Squires* — W.J. Gruffydd yn adolygu'r gyfrol yn ei ysgrif 'Eira Llynedd', i Gruffydd roedd byd yr hen uchelwyr wedi diflannu fel eira llynedd hyd yn oed yn y1920au. O fewn dim roedd wedi suddo mewn i ryw fath o gompost hanesyddol, ac erbyn heddiw yn ddigon aeddfed ei bydredd i gael ei gloddio a'i balu a dod a thrysorau i fyny i'r wyneb. Fel y digwyddodd yn hanes Llwydiaid Dolobran, roedd y profiad o fyw yn Birmingham a Philadelphia yn ei gneud yn bosibl i ddod yn ol ac ailddarganfod pwysigrwydd y cyfnodau diflanedig. Does neb ohonom yn ewyllysio dod a'r uchelwyr yn ol i reoli Cymru, bid siwr, ond y mae'n bwysig i roi cyfle iddynt ddod yn ol i'n hastudiaethau fel pwuc hanesyddol, gan mai hwy oedd yn rheoli Cymru am am dair canrif.

Rwyf newydd son am y wagenni a ddaeth a miloedd o ddogfennau maenorol i'r archifau yn y 1920au wrth i'r ystadau werthu tiroedd a cholli dylanwad. Y mae cymaint o waith i'w wneud nid yn unig ar yr ystadau unigol, ond i'w cymharu, a gweld beth yw 'r eithriadau. Roedd rhai ystadau oedd yn eithriadau: cefais gryn ysgytwad er enghraifft i ddarllen *The Servants' Hall* gan Merlin Waterson, yn darlunio perthynas agos a chyfeillgar teulu Erddig, Wrecsam, gyda'u gweision ar draws y canrifoedd. Pa mor eithriadol oeddynt? Cwestiwn dyrus yw methiant cael etifeddion yn ystod y 18fed ganrif: onid oes achos inni ofyn am gymorth gwyddonwyr o fyd geneteg? A oedd pendefigion a oedd yn brin en plant yn llwyddo i gadw ystadau mawrion, ac yn priodi mewn i deuluoedd prin eu plant, ac felly erbyn y 18fed ganrif yn cyrraedd pwynt lle nad oedd un ferch yn unig etifeddes i 'r cwbl lot? Neu a oes yna esboniadau yn codi o ffyrdd yr uchelwyr o fyw? Beth am y man-ystadau, y rheini oedd yn 'bach yn well na'i gilydd' fel mae ffermwyr y deheudir yn eu galw? Darllenais yn ddiweddar lyfr yr Athro Peter Jackson ar ddyddiaduron Margaret Penderel Jones o 1871 i 1897, o blas y Garth, Llangiwg, Pontardawe, o deulu o Eglwyswyr Cymraeg eu hiaith yn ffermio dwy neu dair fferm, ac yn berchen ar diroedd gwaith glo, ac eto heb gysylltiad a theuloedd uchelwrol traddodiadol Morgannwg. Faint o deuluoedd tebyg oedd gennym? A oedd digon ohonynt i fod yn 'ddosbarth cymdeithasol'? Y mae canuoedd o gwestiynau tebyg y mae angen cael prosiect eang ar yr ystadau i'w hateb. Mae gwir angen astudio'r plas fel ty mawr a'i fywyd ei

hun, yng Nghymru, er bod yna lawer o astudiaethau o blasau unigol. Mae'r Comisiwn Brenhinol yn Aberystwyth wedi cyhoeddi toreth o lyfrau fel astudiaeth Richard Suggett o dai Sir Faesyfed, ac erbyn hyn mae pob sir yng Nghymru wedi gweld cyhoeddi cyfrol 'Pevsner' ar bensaemiaeth, sy'n cynnwys toreth o wybodaeth am adeiladau'r plasau. Mae'n hen bryd felly i brosiect bywiog dynnu'r holl waith diweddar at ei gilydd, er mwyn inni gael darlun cyflawn o'r plas a'i le yn y gymdeithas.

Soniais gynnau fach am Syr Marteine Lloyd o'r Bronwydd, Cymro Cymraeg a oedd yn honni bod yn 'Lord Marcher', yn dod o deulu oedd wedi codi capel Methodistaidd i ymladd dylanwad Undodaeth, ac mi soniais am ei ddisgynnydd Thomas Lloyd, sydd wedi sgrifennu cymaint am blasau diflanedig ac am blasau sydd wedi goroesi. Un o ddarlithoedd mwyaf llwyddiannus y Cymmrodorion yn Llundain yn ddiweddar oedd un Thomas Lloyd ar ddirywiad a diflaniad yr uchelwyr o fywyd Cymru. Pan ddwedais wrtho fod y lle dan ei sang, atebodd 'Wei wrth gwrs, nawr ein bod ni wedi marw fel dosbarth, mae pawb o'r haneswyr am gael gwybod amdanom'. Calon y gwir. Ond mae'n argoeli bod gennym brosiect penigamp o'n blaenau, onid yw?

***Yr Athro Prys Morgan***
*Awst 2015*